

**BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS GWYNEDD A MÔN**  
**ANGLESEY AND GWYNEDD PUBLIC SERVICE BOARD**

**DYDD IAU, 13 EBRILL 2017 09.30yb**

**COFNODION**

<b>Presennol</b>	
<b>Enw</b>	<b>Sefydliad</b>
Ffion Johnstone (Cadeirydd)	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Cyng. Ieuan Williams	Cyngor Sir Ynys Môn
Cyng. Dyfed Edwards	Cyngor Gwynedd
Dilwyn Williams	Cyngor Gwynedd
Sian Purcell	Medrwn Môn
Siobhan Adams	Iechyd Cyhoeddus Cymru
Bethan Russell Williams	Mantell Gwynedd
Gwynne Jones	Cyngor Sir Ynys Môn
Sioned Rees	Llywodraeth Cymru
Simon Smith	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Sian Williams	Cyfoeth Naturiol Cymru
Emyr Williams	Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

<b>Yn Mynychu</b>	
Llio Johnson	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn
Rhian Bayley-Hughes	Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn
Janet Roberts	Cyngor Gwynedd
Shan Morris	Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Elizabeth Woodcock	Myfyriwr PhD (Arsylwi)

## 1. Croeso ac Ymddiheuriadau

Diolchodd y Cadeirydd i Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn Ieuan Williams ag i Arweinydd Cyngor Gwynedd, Dyfed Edwards am eu cyfraniad i raglen y Bwrdd dros y blynyddoedd diwethaf gan eu bod yn sefyll i lawr fel Arweinyddion.

Ymddiheuriadau	
Jerry Hunter	Prifysgol Bangor
Morag Olsen	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Nigel Harrison	Heddlu Gogledd Cymru
Ian Rees	Grwp Llandrillo Menai

## 2. Cofnodion a Materion yn Codi

Newidiadau i gofnodion cyfarfod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2017 :

- Nodi ymddiheuriadau Siobhan Adams.

Materion yn Codi:

- Nodwyd Dilwyn Williams y poslibrwydd o ddefnyddio ystafelloedd cyfarfod y sefydliadau i gynnal cyfarfodydd y Bwrdd.

1	Gweithred:	Rhian Bayley-Hughes i drefnu cyfarfodydd y Bwrdd oddi fewn i sefydliadau
---	------------	--

Cadarnhawyd bod gweddill y cofnodion yn gofnod cywir o'r trafodaethau.

## 3. Cylch Gorchwyl

Angen cynnwys cyfnod Cadeirydd / Is gadeirydd yn y Cylch Gorchwyl. Rhaid ethol Cadeirydd yn y cyfarfod ym mis Mehefin gan ei fod yn gyfarfod mandadol ar ôl etholiad.

## 4. Grant Rhanbarthol Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu gwaith y Byrddau yn rhanbarthol

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig grant rhanbarthol ar gyfer cefnogi'r byrddau yn y rhanbarth i fynd ati i baratoi'r Cynllun Llesiant a pharhau i helpu cydgyfnerthu gwaith ar yr asesiad o lesiant lleol. Mae'r cais rhanbarthol wedi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru gan mai dyddiad cau oedd diwedd Mawrth 2017. Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol nad yw aelodau'r Bwrdd wedi cael cyfle i'w drafod a chynnig gwelliannau.

#### Sylwadau:

- Roedd consensws fod angen plethiad rhwng yr Asesiad Boblogaeth a'r Asesiad o Lesiant.
- Angen Asesiad Poblogaeth i adlewyrchu materion lleol.
- Codwyd pryderon materion ieithyddol a bod angen cytundeb gofynion ieithyddol.
- Bod angen i addasu'r cais i adlewyrchu pwrpas mwy lleol.
- Diffyg ffocws yn y cais - posibilrwydd o ddyblygu
- Angen strwythur monitro cadarn i'r swydd Ranbarthol.

2	Gweithred:	Llio Johnson i fwydo yn ôl ar y cais i'r grŵp rhanbarthol
---	------------	---

### 5. Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Cyflwynwyd Cynllun Strategol Drafft ac Adroddiad Datblygu Meysydd Blaenoriaeth Swyddfa'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol er gwybodaeth i'r Bwrdd, gan esbonio eu bod yn medru ymateb yn uniongyrchol.

### 6. Trefniadau Ymgysylltu'r Bwrdd

Esboniodd Llio Johnson fod adroddiad wedi ei baratoi gan Medrwn Môn a Chyngor Sir Ynys Môn ar y gwaith ymgysylltu sydd wedi digwydd gyda'r cyhoedd yn defnyddio model Lleisiau'n Lleol. Mae'r adroddiad yn cynnwys negeseuon clir am y ffordd mae'r cyhoedd eisiau i sefydliadau cyhoeddus ymgysylltu â nhw.

Cytunodd aelodau'r Bwrdd bod angen crynodeb o'r adroddiad ynglŷn â'r negeseuon a'i drafod ymhellach yn cyfarfod nesaf y Bwrdd ym mis Mehefin, 2017.

Cytunwyd hefyd fod angen sefydlu trefn gydag Aelodau Lleol a'u bod hwy yn rhan o arwain y trafodaethau lleol. Mae cydnabyddiaeth fod yr atebion a'r datrysiad ar gyfer materion lleol o fewn y cymunedau hynny.

3	Gweithred:	I'w gynnwys ar yr agenda ym mis Mehefin, 2017
---	------------	---

## 7. Gohebiaeth

Rhannwyd copïau o adroddiad a dderbyniwyd gan Rwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru gyda'r Bwrdd.

Roedd gwrthwynebiad i dderbyn yr adroddiad gan mai fersiwn uniaith Saesneg yn unig oedd wedi ei rannu. Nodwyd hefyd fod y wybodaeth leol, ee cysylltiadau Cyngor Gwynedd yn anghywir.

4	Gweithred:	Llio Johnson a Ffion Johnstone i ymateb i'r rhwydwaith gyda'r sylwadau uchod
---	------------	--

## 8. Asesiad o Lesiant Lleol – Sesiwn Gweithdy

### Rhan 1:

**Mewn grwpiau cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r ymatebion oedd wedi eu derbyn ar yr asesiad drafft ac unrhyw newidiadau oedd angen eu gwneud cyn cyhoeddi'r fersiwn terfynol.**

### Crynodeb o'r drafodaeth:

### Sylwadau Cyffredinol:

- Mae'r asesiad yn ddogfen byw a byddem yn ei diwygio fel mae pethau'n newid / datblygu e.e. effaith Brexit / Wylfa.
- Cydnabyddiaeth bod rhai ymatebion i'r ymgynghoriad yn amlwg yn ymgyrchu, mae angen gwarchod yn erbyn derbyn bod sylwadau gan ymatebwyr gyda diddordeb penodol iawn mewn un maes yn gynrychiadol.
- Mae angen crynhoi beirniadaeth y Comisiynydd mewn pwyntiau bwled - pa rhai sydd angen sylw rŵan ac yn y tymor hir a gellir trafod hyn yn y dyfodol.
- Roedd cydnabyddiaeth na ellir newid llawer ac nad oes angen newid llawer ar hyn o bryd – angen rhai newidiadau bychain mewn ymateb i'r sylwadau ac wedyn angen ystyried newidiadau pellach i'r dyfodol.
- Cafwyd trafodaeth am y cyswllt rhwng y BGC a'r strwythur rhanbarthol a rannwyd o ran y Bwrdd Partneriaeth Rhan 9 - oes angen gymaint o grwpiau, mae yn gymhleth a rhaid cwestiynu sut y gall gymaint o grwpiau gwahanol weithredu yn effeithiol a sut y bydd hyn yn plethu â gweithredu Cynlluniau Llesiant y Bwrdd?
- Nodwyd hefyd nad oes sylw manwl yn cael ei roi i'r BGC yn y Papur Gwyn diweddar - Diwygio Llywodraeth Leol: Cadernid ac adnewyddiad, felly nid yw yn glir beth yw bwriad y Llywodraeth o ran gweithredu rhanbarthol?
- Wrth bennu amcanion ar gyfer y cynllun mae yn bwysig eu bod yn amcanion y BGC, nid rhai y byddai sefydliadau unigol wedi eu hadnabod / gweithredu fodd bynnag.
- Cydnabyddiaeth bod trafodaethau a chydweithio yn y Bwrdd yn gallu tynnu allan syniadau newydd a dylai, o bosibl, helpu i dargedu adnoddau i fynd i'r afael â materion yn fwy effeithiol / effeithlon.

## Sylwadau ar yr Asesiad yn cynnwys bylchau mewn data/gwybodaeth:

- Cydnabod unwaith yn rhagor na ellir gwneud y newidiadau yma i gyd ar gyfer yr asesiad yma ond angen gweithio ar hyn ar gyfer diweddariad yr Asesiad i'r dyfodol.
- Angen sôn am lechyd Meddwl – gellid eu hatgyfnerthu yn yr asesiad gan ei fod yn effeithio ar bob gwasanaeth sy'n cael ei gynrychioli ar y BGC. Mae'n bwysig cynnwys iechyd meddwl a lles gan fod lles hefyd yn cynnwys elfennau o wydnwch cymunedol a chhydraddoldeb.
- Dylid tlodi cael ei ehangu a hinsawdd ariannol. Ar hyn o bryd mae'n canolbwyntio'n rhy gul ar ychydig o ddangosyddion tlodi.
- Angen cyd-destun gwell ar gychwyn y ddogfen gan gynnwys naratif ar sut yr ydym wedi cyrraedd y prif negeseuon.
- Tueddiadau i'w cynnwys.
- Cyrhaeddiad Addysgol – Posib rhoi mwy o sylw i amrywiadau e.e gwahaniaethau rhwng y rhywiau a'r angen i sicrhau mwy o gydbwysedd.
- Hinsawdd- efallai bod gormod o sylw ar lygredd, lefel y môr ayyb a dim digon am effaith newid mewn hinsawdd ar faterion eraill megis bioamrywiaeth, cynefinoedd naturiol ayyb.
- Gofal cymdeithasol – dim llawer yma ar hyn, angen mwy o'r Asesiad Poblogaeth?
- Unigrwydd - angen cydnabod effaith hyn ar lesiant. Mae y n broblem yma gan fod pobl yn ymddeol i'r ardal a pan mae un partner yn marw mae'r weddw yn bell o deulu a chefnogaeth. Mae yn bwysig cydnabod nad yw yn broblem mewn ardaloedd gwledig yn unig - gall unigedd ddigwydd yn ein trefi hefyd.
- Angen cydnabod fod y negeseuon a'r materion yn cyd-blethu.
- Gellir gwneud y newidiadau angenrheidiol ac wedyn datblygu'r ddogfen i'r dyfodol gan ystyried yn fwy manwl yr holl ymatebion.

Cytunwyd i rannu y rhan olaf o'r ddogfen - "Beth mae hyn yn ddweud wrthym am lesiant" gyda'r aelodau ar gyfer sylwadau cyn cyhoeddi.

Cytunwyd ymateb i'r Comisiynydd yn diolch am y sylwadau ac yn amlinellu sut mae'r Bwrdd wedi ymateb i'r sylwadau.

## Rhan 2:

### **Mewn grwpiau cafwyd trafodaeth bellach ynglŷn â'r prif negeseuon a chychwyn y broses o gysidro beth fydd amcanion y Bwrdd yn y Cynllun Llesiant:**

#### **Crynodeb o'r drafodaeth:**

Roedd trafodaeth gyffredinol ynglŷn â'r prif negeseuon. Roedd yn bwysig nodi'r posibilrwydd o wahanol sefydliadau yn dehongli'r negeseuon yn wahanol. Mae yn bwysig fod consensws clir ar yr hyn mae'r negeseuon yn ei olygu i'r Bwrdd.

Cytunwyd fod pob un o'r negeseuon yn rhai y gall y Bwrdd gyfrannu atynt gyda'i gilydd a bod rhai sefydliadau amlwg ar gyfer arwain.

#### **1. Yr angen i gynnal ysbryd cymunedol iach sydd mor bwysig i lesiant ein cymunedau :**

Eto angen cytundeb o ddehongliad y neges - mae sefydliad fel y Gwasanaeth Tân ac Achub i'w weld yn un amlwg i arwain - mae gorsafodd tân mewn nifer o gymunedau ond hefyd y 3ydd Sector yn gweithredu o fewn cymunedau yn barod. Mae yn bwysig cydnabod nad yw cymuned o reidrwydd yn gymuned ddaeryddol, gall fod yn gymuned o bobl hyn, cymuned ffermio ayyb.

**2. Pwysigrwydd gwarchod yr amgylchedd naturiol:**

BGC yn gallu gweithredu ar y cyd – mae Cyfoeth Naturiol Cymru a’r Parc Cenedlaethol yn amlwg yn gweithredu yn y maes yma ond gall cyd-weithio roi mynediad at fwy o adnoddau yn gweithredu at ddiben cyffredin.

**3. Deall effaith y newidiadau yn nemograffeg ein hardaloedd:**

Gall Swyddogion y BGC ac Iechyd Cyhoeddus Cymru weithredu ar hyn - gellir edrych ar y tueddiadau i’r dyfodol a cheisio amlygu effaith hyn ar unrhyw weithredu i wella llesiant.

**4. Gwarchod yr iaith Gymraeg**

Mae hwn yn faes lle gellir gweithredu ar y cyd. Mae angen ail edrych ar y neges, nid yw yn ddigonol dweud ‘gwarchod’ mae angen datblygu a hyrwyddo’r defnydd o’r iaith.

**5. Hybu’r defnydd o’r Adnoddau naturiol i wella iechyd a llesiant yn y hir dymor :**

Maes lle gellir gweithredu ar y cyd. Angen trafodaethau pellach ynglŷn â phwy ddylai arwain.

**6. Gwellu cysylltiadau trafniadaeth i alluogi mynediad at wasanaethau a chyfleusterau:**

Mae hwn yn faes lle gall y BGC weithredu ar y cyd OND mae angen ddechrau hefo Llywodraeth Cymru. Mae yn fater cenedlaethol ac angen gweithredu cenedlaethol.

**7. Yr angen am swyddi o safon uchel a thai sy’n fforddiadwy i bobl leol:**

Angen trafodaeth bellach - mae llawer o waith yn digwydd yn rhanbarthol a pha ddylanwad lleol sydd gan y BGC ar hyn?

**8. Effaith tlodi, yn cynnwys tlodi tanwydd ar lesiant:**

Mae angen ehangu hyn a llawn ddeall effaith byw mewn tlodi ar lesiant. Mae yn gyfrifoldeb i bob sefydliad - angen trafodaethau pellach.

**9. Sicrhau fod pob plentyn yn cael cyfle i lwyddo:**

Fel uchod mae angen llwyr ddeall hyn - beth yw’r rhwystrau i lwyddo, eto angen trafodaethau pellach.

Penderfynwyd fod angen i bob sefydliad gael trafodaethau mewnol cyn y cyfarfod nesaf ym mis Mehefin er mwyn cytuno ar y canlynol:

- Beth mae’r prif negeseuon yn ei olygu? Sut yda’ chi yn dehongli’r negeseuon?
- Pa gyfraniad sydd gan y sefydliad yn erbyn pob neges? Beth sydd yn digwydd eisoes a pha gynlluniau i’r dyfodol?
- Ym marn y sefydliad, pa bartner arall fyddai yn rhan allweddol o’r ymateb / cyd-weithio o dan bob neges

Cytunwyd y byddai swyddogion y BGC yn rhannu templed ar gyfer y trafodaethau hyn. Bydd hyn yn digwydd yr wythnos ar ôl cyhoeddi’r Asesiad Llesiant terfynol.

**Cymeradwyo’r Asesiadau Llesiant - bu i’r ddau Fwrdd gymeradwyo cyhoeddi’r asesiad ar gyfer eu hardal gyda’r mân newidiadau sydd wedi eu trafod. Mae cofnodion arwahan wedi eu cynhyrchu i adlewyrchu hyn.**

## 5. Dyddiad y cyfarfod nesaf

Nodwyd manylion y trefniadau ar gyfer cyfarfod nesaf o'r Bwrdd ar 20 Mehefin, 2017 am 9.30yb yn Nhŷ Menai, Parc Menai, Bangor, Gwynedd.

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r angen i gyfarfod yn fwy aml tra bod y Bwrdd yn llunio'r Cynllun Llesiant. Cytunwyd ceisio trefnu dyddiadau bob 6 wythnos ond mai gweithdai anffurfiol fyddai'r cyfarfodydd ychwanegol.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.30pm